Clwb Mynydda Cymru
Adroddiad yr ysgrifennydd gweithgareddau 2026

1. Teithiau mynydda

Trefnwyd cyfanswm o **70** o deithiau. Mae her y teithiau'n amrywio o'r gwyn i'r du gan gynnwys ambell 'epic'. Diolch yn fawr iawn i'r **39** o'r aelodau hynny a gytunodd i arwain teithiau. Dyma ddadansoddiad:

1.1 Trefnwyd 11 o deithiau du; 14 o rai coch; 30 o rai gwyrdd; deg felen; pump o rai gwyn a gohiriwyd dwy oherwydd tywydd garw.

1.2 Ar gyfartaledd, mae **10** o gerddwyr/mynyddwyr ar bob taith. Y nifer isaf ar daith eleni oedd 3 a 22 oedd y nifer uchaf.

Cynhaliwyd dwy **daith flasu** – Cadair Idris a Phen yr Helgi Du/Pen Llithrig y Wrach - dan arweiniad Steve a bu i rai o'r blaswyr ymaelodi â'r Clwb yn sgil y profiad.

Mae pob taith a gynigir gan y Clwb yn cael ei gwerthfawrogi ond dyma roi sylw arbennig i ambell weithgaredd, e.e.

- taith y machlud ar Garnedd Llywelyn ddiwedd mis Ionawr – Steve Williams
- hyfforddiant mordwyo yng Nghapel Curig ym mis Ebrill – Dwynwen, Manon ac Elen
- cymalau o Ras Cefn Ddraig ym mis Mai a Medi – Dwynwen
- llysieueg Cwm Idwal ddiwedd mis Mai – Paula a Gwyn
- cwrs ar-lein 'gwneud y defnydd gorau o'r app OS' ym mis Mehefin – Dwynwen
- gwersylla wrth dramwyo'r Rhinogydd ddiwedd mis Mehefin – Dwynwen
- taith chwilboeth dros Mynydd Mawr a rhan o grib Nantlle ym mis Gorffennaf - Matthew

2. Partneriaethau

2.1 **Y *Bartneriaeth Awyr Agored*** – hysbyswyd y Clwb bod newid sylweddol ar droed o ran gweithdrefnau'r Bartneriaeth ac o ganlyniad penderfynodd y Pwyllgor beidio â thalu'r ffi ymaelodi eleni. Yn hytrach, byddir yn gwario'r £150 i gyfrannu at gostau y rhai hynny sy'n dymuno derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf awyr agored.

2.2 ***Yr Urdd*** - defnyddiwyd peth o arian y gronfa a sefydlwyd er cof am Gareth Pierce i gefnogi cynnal cwrs mynydda ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 ac 18 oed yng Ngwersyll Glanllyn yn 2024. Mae'r arian hwnnw bellach wedi dod i ben ond mae'r Urdd wedi penderfynu parhau i gynnig y cwrs ac roedd hwnnw'n llawn eto eleni.

2.3 ***Eisteddfod Genedlaethol*** - traddodwyd y ddarlith flynyddol yn yr Eisteddfod gan Dwynwen Pennant ac mae Steve a Matthew Williams wedi cytuno darparu'r ddarlith yn Eisteddfod Maldwyn Meirionnydd yn

2027. Trefnwyd taith gerdded hefyd yn ardal Dinas dan arweiniad Richard Mitchley.

2.4 **Y BMC** - Mae pob aelod o'r Clwb yn aelod o'r BMC.

3. Teithiau preswyl

- **Taith aeaf i Crianlarich.** Roedd **9** o aelodau ar y daith yma yn heulwen yr Alban!

- **Taith haf i Ullapool**. Mwynhaodd **19** o aelodau dywydd hafaidd yn ystod mis Mai.

- **Taith i Awstria**. Mwynhaodd 9 aelod gylchdaith cwt i gwt o amgylch y *Grossglokner.*

Yn 2027, trefnir taith i Crianlarich ar 20-27 **Chwefror** a thaith i Ullapool ar 5-12 **Mehefin 2027.**

Diolch yn fawr i Keith Roberts am drefnu teithiau'r Alban a diolch i Anna George am drefnu'r daith i Awstria.

4. Ac i gloi

Diolch yn fawr iawn i bawb am eu cefnogaeth a byddaf yn dod ar ofyn yr aelodau eto'n fuan o ran cael gwirfoddolwyr i arwain teithiau rhwng Ionawr ac Ebrill 2027! Hoffwn apelio:

- am ragor o arweinyddion – bydd digon o gefnogaeth ar gael gan aelodau profiadol eraill

- ar arweinyddion i ysgrifennu disgrifiadau'r teithiau gan ddilyn y templad sydd ar wefan y Clwb ac anfon adroddiad a lluniau at Iolo ap Gwynn yn dilyn pob taith

- ar bob aelod sy'n defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu adroddiadau ar *Facebook, Instagram* ac ati.

Richard Roberts, Tachwedd 2026.